

I'ch cadw mewn cysylltiad â'r
Ysgol Seicoleg a Gwyddor Chwaraeon



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

Y MEDDWL A'R CORFF

GAEAF 2024 | RHIFYN 2.



CYNNWYS

- 03. Y Meddwl a'r Corff
- 04. Newyddion yr Ysgol Seicoleg a Gwyddor Chwaraeon
- 10. Newyddion Cyn-fyfyrrwyr
- 14. Newyddion Myfyrwyr
- 18. Newyddion am Leoliadau a Chyflogadwyedd
- 20. Newyddion Ymchwil Ôl-radd
- 24. Digwyddiadau
- 26. Uchafbwyntiau Ymchwil ac Effaith
- 36. Llwyddiant Grant
- 38. Dymuno y Gorau i Chi

Golygwyd gan
Dr. Paloma Mari-Beffa



Y MEDDWL A'R CORFF


Cylchlythyr yr Ysgol
SEICOLEG A GWYDDOR CHWARAEON.

Y newyddion diweddaraf gan Seicoleg a
Gwyddor Chwaraeon, staff a chyn-fyfyrrwyr.

Y MEDDWL A'R CORFF GAEAF 2024

Os oes gennych unrhyw newyddion yr hoffech i ni ei gynnwys yn y
rhifyn nesaf, anfonwch hwy i spss-news@bangor.ac.uk

Croeso i rhifyn y gaeaf (rhifyn 2) o gylchlythyr Ysgol Seicoleg a Gwyddoniaeth Chwaraeon



Roedd y rhifyn cyntaf yn gyflwyniad gwych i'r Ysgol sydd newydd ei ffurfio a'i henwi o'r newydd, felly mae gan y rhifyn hwn lawer i'w wneud i gadw'r safon. Mae Rhifyn 2 yn crisialu amrywiaeth ein gwaith, ehangder ein portffolio, a chyrhaeddiad ac effaith fyd-eang ein ymchwil, gweithgarwch ysgolheigaidd, ac arbenigedd a dylanwad academiaidd.

Mae ein hymdrech barhaus i gael ein cydnabod yn fyd-eang fel Ysgol sy'n arwain y byd sy'n holi'r corff a'r meddwl wrth geisio gwella iechyd, lles, a pherfformiad ar gyfer ein cymunedau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol wedi'i amlygu gan ein gwaith yn cael ei ddathlu a'i gydnabod. ar draws y byd o Fangor i Brasil. Yn y cylchlythyr hwn rydym yn arddangos cyfraniadau'r Ysgol i feysydd rheoli straen, hybu llythrennedd, diogelwch chwaraeon, niwroadborth, atal bwlio yn yr ysgol, a seicoleg perfformiad. Mae ein hawydd i gael mwy o ddylanwad a phroffil yn y sector hefyd yn cael ei gydnabod gan benodiad yr Athro Michaela Swales yn Lywydd cyntaf Cymdeithas Therapi Ymddygiad Dilechdidol y Byd (WDBTA), cynnal y Gynhadledd Ymwybyddiaeth Ofalgar yn yr haf, ac uwchgyfeirio ein bwriad strategol i ymdreiddio i fyd y gynhadledd ryngwladol gyda phresenoldeb Ysgol Seicoleg a Gwyddor Chwaraeon.

Mae'r rhifyn hwn hefyd yn rhoi ymdeimlad hyfryd o atgofion gan ein cyn-fyfyrrwyr a rhywfaint o fewnwelediad i aduniad y cyn-fyfyrrwyr. Byddwch hefyd yn dod o hyd i adran sy'n cyfleu ein hymgyrch o gwmpas cyflogadwyedd i feithrin hyder byd go iawn yn ein myfyrwyr, darparu profiad dysgu trawsnewidiol, lleoliadau effeithiol a mentrau allgymorth, a dathlu eu cyflawniadau priodol. Mae'r ciplun hwn o weithgarwch yn tanlinellu ein rôl wrth lunio unigolion, meithrin twf academiaidd, profiad dysgu ymarferol, datblygu gwybodaeth gymhwysol a chael effaith gadarnhaol ar gymdeithas.

Gobeithiaf y byddwch yn gweld bod y cylchlythyr hwn yn parhau i ddangos ein dymuniad i bontio arbenigedd academiaidd â chymwysiaidau'r byd sydd ohoni, gan hyrwyddo lles cymdeithasol a chyflawniadau perfformiad uchel. Mwynhewch...




Dymuniadau Nadoligaidd
Dave

Yr Athro Dave Richardson
Pennaeth Ysgol

NEWYDDION YR YSGOL SEICOLEG A GWYDDOR CHWARAEON

Prifysgol Bangor ymhlith yr adrannau seicoleg yr oedd galw mawr amdanynt yn y Deyrnas Unedig yn 2023/2024



Cyfranogwr mewn astudiaeth EEG

Meddai'r Athro Dave Richardson, Pennaeth yr Ysgol, "Mae cyrraedd y pum safle uchaf yn adlewyrchu cryfder ein hymchwil, y rhaglenni ôl-radd arloesol a gynhigiwn ac ymroddiad ein tîm. Mae'n braf gweld bod myfyrwyr ôl-radd yn cydnabod hyn ac yn chwilio am gyfleoedd ym Mangor."

Casglwyd y data y tu ôl i'r safleoedd hyn gan ddefnyddio algorithm pwrpasol Postgrad.com, sy'n cyfuno sawl metrig i ganfod lefel y diddordeb gan ddarparu fyfyrwyr ôl-radd.

Roedd y ffactorau allweddol a ddylanwadodd ar y safleoedd yn cynnwys:

- Amledd termau chwilio o flwch chwilio Postgrad.com
- Traffig uniongyrchol i restrau adrannau seicoleg o chwiliadau organig
- Cyfanswm nifer y troeon yr edrychwyd ar broffil pob prifysgol ar Postgrad.com dros y 12 mis diwethaf

Mae'r safleoedd hyn yn unigryw gan eu bod yn deillio'n gyfan gwbl o safbwynt myfyrwyr ôl-radd. Mae hyn yn cyferbynnu â thablau cynghrair prifysgolion traddodiadol, sy'n tueddu i ganolbwyntio ar raglenni israddedig. Trwy flaenoriaethu data ôl-radd-benodol, mae safleoedd Postgrad.com yn cynnig cipolwg gwerthfawr ar y galw presennol am adrannau seicoleg a'u rhaglenni ôl-radd ledled y Deyrnas Unedig.

Tynnodd Rob Houghton, Cyd-sylfaenydd Postgrad Solutions, sylw at bwysigrwydd y canfyddiadau hyn, "Mae seicoleg yn parhau i fod yn ddewis ôl-radd poblogaidd, ac mae myfyrwyr yn awyddus i ddod o hyd i'r cwrs perffaith. Rydym yn falch iawn o dynnu sylw at ganlyniadau ein hymchwil gyda'r pum ysgol hyn, y rhai y chwiliwyd amdanynt fwyaf yn gyson ar Postgrad.com. Mae gan bob adran gryfderau unigryw ac amrywiaeth wych o gyrsiau, sy'n darparu ar gyfer y maes hwn sy'n esblygu'n barhaus."

Mae adran seicoleg Prifysgol Bangor wedi ei henwi'n un o'r pum adran seicoleg y mae'r mwyaf o chwilio amdani yn y Deyrnas Unedig.

Gwnaeth Postgrad Solutions Ltd, y cwmni y tu ôl i'r porth addysg ôl-radd byd-eang Postgrad.com, gyhoeddi safleoedd yr adrannau seicoleg yr oedd y galw mwyaf amdanynt yn y Deyrnas Unedig i gyrsiau ôl-radd yn 2023/2024.

Yn bumed yn y Deyrnas Unedig, mae adran seicoleg Prifysgol Bangor wedi dangos ei bod yn ddewis gwych i fyfyrwyr ôl-radd, gan gadarnhau ymhellach ei henw da am ddarparu addysg o ansawdd uchel a chyfleoedd ymchwil ym maes seicoleg.

Gweithdy rhyngwladol yn trafod trawsnewidiadau cynaliadwy ar gyfer dyfodol teg

Cynhaliwyd gweithdy arloesol yn canolbwyntio ar ddulliau amlddisgyblaethol o ran trawsnewidiadau cynaliadwy ar 28 Awst ym Mhrifysgol Bangor, gan ddod ag ymchwilwyr ac academyddion o bob rhan o'r byd ynghyd i drafod llwybrau tuag at ddyfodol mwy cytbwys a theg ar gyfer tir, pobl a diwylliant. Mae'r digwyddiad, a gynhelir mewn cydweithrediad â Lleoliadau Newid Hinsawdd (Ploc), Sefydliad Ymchwil Lles yr Adran Seicoleg ym Mhrifysgol Bangor, a Universidade CEUMA ym Maranhão, Brasil, yn cydfynd â galwad cyllido 'Just Transitions' yr Academi Brydeinig o dan eu "Ffiniau Gwybodaeth: Projectau Ymchwil Rhyngddisgyblaethol Rhyngwladol 2025"

Dechreuodd y gweithdy, a arweinwyd gan yr Athro John Parkinson, gyda chinio bwffe, gan roi cyfle i gyfranogwyr rwydweithio a chyfnwio syniadau cyn cymryd rhan mewn cyflwyniadau ymchwil a thrafodaethau. Roedd y cymysgedd disgyblaethol academiaidd yn cynnwys seicoleg, anthropoleg, ieithyddiaeth, coedwigaeth, gwyddor daear, economeg iechyd, hanes, peirianeg a mwy o bosib! Traddodwyd y prif gyflwyniad gan yr Athro Carlos Tomaz o Universidade CEUMA, a gynhigiodd gipolwg ar ymchwil y brifysgol ar fion yr Amazon, gan bwysleisio pwysigrwydd arferion cynaliadwy yn un o ecosystemau mwyaf hanfodol y byd.



Y Dirprwy Is-ganghellor, Oliver Turnbull; Yr Athro Carlos Tomaz a'r Athro John Parkinson.



Cyfranwyr gweithdai

Wrth adfyfrio ar bwysigrwydd y gweithdy, dywedodd yr **Athro Carlos Tomaz**: "Roedd yn gyfle da i gyfnwio arbenigedd a cheisio adeiladu cydweithrediad hirdymor rhwng Bangor a CEUMA. Mae hyn yn atgyfnerthu ymhellach y berthynas rhwng Cymru a Brasil o ran yr amgylchedd, iechyd a chynaliadwyedd, gan gynnwys nid yn unig ymchwil ond hefyd addysg rhyngwladol a chynlluniau cyfnwio rhwng myfyrwyr ac ymchwilwyr o'r ddwy ochr. Prifysgol CEUMA yw'r brifysgol breifat fwyaf yng ngogledd Brasil gyda dros 30,000 o fyfyrwyr ac mae wedi ei lleoli mewn ardal drosiannol rhwng Amazonia drofannol a'r safana yng Ngogledd Ddwyrain Brasil. Mae'r maes hwn yn gyfle da iawn i ymchwil ac addysg ar ecosystemau naturiol ac effaith dynoliaeth."

Roedd sesiwn y prynhawn yn cynnwys cyfres o gyflwyniadau 10 munud ar bynciau amrywiol, gan gynnwys yr amrywiad gofodol ac amseryddol mewn datgoadwigo yn yr Amazon, rôl disgwrs ac ymlyniad at le mewn ymchwil newid hinsawdd, ac effaith manau gwyrdd a glas ar iechyd a lles dynol, gydag astudiaethau achos o ogledd Cymru a thu hwnt. Cafwyd cyflwyniadau hefyd a oedd yn trafod dysgu o drawsnewidiadau ynni yng Nghymru a'r Unol Daleithiau, y defnydd o rwydweithiau synwryddion diwif i rymuso ffermwyr Fietnam, ac ymchwil arloesol i fawndiroedd i frwydro yn erbyn rhyddhau nwyon tŷ gwyr.

Yn dilyn y cyflwyniadau, roedd sesiwn i gloi yn caniatáu i gyfranogwyr gymryd rhan mewn trafodaeth ddeinamig am yr heriau a'r cyfleoedd ar gyfer trawsnewidiadau cynaliadwy. Daeth y gweithdy i ben gyda sesiwn wedi ei neilltuo i nodi themâu newydd, cyfleoedd ar gyfer y dyfodol, a chamau gweithredu ar gyfer cydweithredu parhaus rhwng Prifysgol Bangor ac Universidade CEUMA.

Wrth gloi'r gweithdy, dywedodd yr **Athro John Parkinson**: "Mae Prifysgol Bangor yn ganolfan ragoriaeth ar gyfer ymchwil i gynaliadwyedd, wedi ei ddiffinio'n fras, ac rydym wedi dod o hyd i bartner rhagorol yn CEUMA Universidade sydd â diddordebau a chryfderau ymchwil tebyg. Rwy'n gobeithio y bydd y gweithdy hwn yn rhoi sylfaen gadarn ar gyfer cyfleoedd ymchwil a chydweithio yn y dyfodol. Uchelgais allweddol i'r bartneriaeth yw cynnal symposiwm y flwyddyn nesaf yn uwchgynhadledd COP 30 y Cenhedloedd Unedig yn Belém, gogledd Brasil."

Am ragor o wybodaeth neu i fynegi diddordeb mewn digwyddiadau yn y dyfodol, cysylltwch â'r Athro John Parkinson ym Mhrifysgol Bangor.

Michaela Swales yn cael ei hethol yn llywydd cyntaf y World Dialectical Behaviour Therapy Association

Mae Michaela Swales, Cyfarwyddwr Rhaglen Seicoleg Glinigol Gogledd Cymru yn yr Ysgol Seicoleg a Gwyddor Chwaraeon, wedi ei hethol yn llywydd cyntaf y World Dialectical Behaviour Therapy Association (WDBTA). Mae gan Michaela dros 30 mlynedd o brofiad ym maes therapi ymddygiad dialectig, ac mae'n dod â chyfoeth o arbenigedd i'r swydd bwysig hon.

Mae'n cael ei chefnogi gan fwrdd amrywiol a daw'nus o glinigwyr ac ymchwilyr o wyth gwlad, sy'n cynrychioli pedair o bum cangen WDBTA. Mae pob aelod o'r bwrdd yn chwarae rhan arweiniol yn eu cangen ranbarthol neu'n cyfrannu at is-grwpiau arbenigol sy'n canolbwyntio ar feysydd allweddol fel ymchwil, uniondeb triniaeth, hyfforddiant, gweithredu a lledaenu gwybodaeth.

Dyma ddywedodd **Michaela** am ei phenodiad: *"Dechreuodd fy mhrofiad o therapi ymddygiad dialectig dros ddeng mlynedd ar hugain yn ôl pan oeddwn, fel seicolegydd clinigol newydd gymhwyso, yn ddigon ffodus i fynd ar yr ail gwrs hyfforddiant dwys a gynhaliwyd dan arweiniad Dr Marsha Linehan. Pe baech wedi dweud wrthyf bryd hynny y byddwn yn llywydd cymdeithas therapi ymddygiad dialectig fyd-eang ryw ddydd, ni fyddwn byth wedi credu'r peth!"*



Professor Michaela Swales

Estynnodd **yr Athro Dave Richardson**, Pennaeth yr Ysgol Seicoleg a Gwyddor Chwaraeon, ei longyfarchiadau: *"Llongyfarchiadau i Michaela ar gael ei hethol i'r swydd hon. Wrth iddi ddatlu 32 mlynedd ym Mangor y mis hwn, mae'n amlwg ei bod yn aelod amhrisiadwy o'n hysgol. Mae ei phenodiad fel llywydd yn destament gwirioneddol i'w hymroddiad a'i chyfraniadau ardderchog at faes therapi ymddygiad dialectig"*.

Nod Michaela yw adeiladu ar gyflawniadau WDBTA, gan ganolbwyntio ar hybu gwaith pwyllgorau sefydlog y gymdeithas, hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant a meithrin cydweithredu ar draws rhanbarthau. Mae cynlluniau cyffrous ar gyfer y gynhadledd therapi ymddygiad dialectig gyntaf yn 2026 eisoes ar y gweill, a bydd y gynhadledd yn cynnig cyfle unigryw ar gyfer ymgysylltu ac arloesi byd-eang yn y maes.



Bangor yn cynnal Cynhadledd Ryngwladol ysbrydoledig am Ymwybyddiaeth Ofalgar

Roedd yn bleser cynnal y Gynhadledd Ryngwladol ar Ymwybyddiaeth Ofalgar ym Mhrifysgol Bangor ym mis Awst 2024, ac mae'n bleser gennym rannu'r



fideo byr hwn o'r uchafbwyntiau sy'n cyfleu'r cyfoeth, yr amrywiaeth, yr ansawdd, y llawenydd, y tynerwch, y cysylltiad a'r ymdeimlad o gymuned a gafwyd yn y gynhadledd.

Gyda chyfranogwyr a siaradwyr yn ymuno ar-lein ac yn y cnaud ym Mangor, roedd y gynhadledd hon yn wirioneddol ryngwladol ac yn galluogi pobl o bob rhan o'r byd i rannu ymchwil ac ymarfer. Roedd y rhaglen yn hynod ddifyr ac ysbrydoledig, ac rydym yn bwriadu sicrhau bod y recordiadau o'r cyflwyniadau ar gael i gynulleidfa mor eang â phosib ac rydym hefyd am ymdrechu i ddod o hyd i ffyrdd o barhau â'r trafodaethau pwysig a ddechreuwyd yn y gynhadledd.

Llyfr newydd ar "Mythau Perfformiad Chwaraeon"



Lansiad Llyfr

Yn ddiweddar, cyhoeddodd **Vicky Gottwald**, aelod o staff IPEP, ynghyd â chyn-fyfyriwr IPEP **Dr Robin Owen** a **Marianne Davies** o UK Coaching bennod yn y llyfr gwyddoniaeth boblogaidd 'Myths of Sport Performance'.

Nod y llyfr yw dadansoddi rhai o'r mythau, camsyniadau a realiti mwyaf treiddiol ynghylch sut, beth a pham i wella perfformiad mewn chwaraeon. Teitl y bennod hon oedd 'Harnesio pŵer sylw: archwilio damcaniaethau, arfer, a mythau 'ffocws sylw' ac mae'n canolbwyntio ar fythau ynghylch cyfarwyddiadau hyfforddi. Isod mae ychydig o luniau o lansiad y llyfr.



Llwyddiant i seicolegwyr chwaraeon ac ymarfer mewn cynhadledd ryngwladol

Rhwng 14 a 20 Gorffennaf, bu tîm o 14 aelod staff ac ymchwilwyr ôl-radd o Sefydliad Seicoleg Perfformiad Elit (IPEP) yr adran Gwyddor Chwaraeon i gynhadledd y Ffederasiwn Ewropeidd Seicoleg Chwaraeon ac Ymarfer (FEPSAC) yn Innsbruck, Awstria. Mae'r digwyddiad pwysig hwn yn digwydd bob dwy flynedd ac yn denu dros 1,000 o ymchwilwyr ac ymarferwyr seicoleg chwaraeon ac ymarfer o bob rhan o'r byd. Thema'r gynhadledd eleni oedd "Performing under Pressure."

Mae'r Sefydliad Seicoleg Perfformiad Elit yn enwog am eu hymchwil o'r radd flaenaf a'u hymarfer cymhwysol ym maes pwysau a pherfformiad, a chawsant effaith sylweddol ar y gynhadledd. Cyflwynodd y tîm nifer o sesiynau, gan gynnwys tair sesiwn yn trafod seicoffisioleg perfformio dan bwysau, canolbwyntio sylwgar a pherfformiad a hyfforddiant bio/niwroadborth. Yn ogystal, bu iddynt gynnal gweithdy yn cynnig atebion ymarferol i leihau pryder wrth siarad yn gyhoeddus.



Cyfranogwyr SPSS yn FEPSAC

Rhoddod y Sefydliad Seicoleg Perfformiad Elit hefyd wyth cyflwyniad llafar a deg cyflwyniad poster ar eu hymchwil arloesol, yn rhychwantu iechyd meddwl mewn chwaraeon elit, effeithiau rhyngweithiol personoliaeth ar ymddygiad, seicoleg rhedeg dygn iawn, effeithiau arweinwyr ar berfformiad tîm a dulliau unigolyddol o ddatblygu talent.

Daeth y gynhadledd i ben gyda seremoni gloi a gwobrau, lle cafodd ôl-raddedigion y Sefydliad Seicoleg Perfformiad Elit cyntaf, ail a thrydydd, canlyniad gwych. Enillodd **Alex McWilliam** y wobwr gyntaf yn y gystadleuaeth "Young Practitioners" am ei waith "The Improv Self-Efficacy and Skills Programme: A Novel Treatment to Reduce Public Speaking Anxiety." Enillodd **Joe Varga** yr ail wobwr, a **Charlotte Welch** y drydedd wobwr yn y gystadleuaeth "Young Researchers" am eu cyflwyniadau "Maximizing Performance Under Pressure: A Comprehensive Multidisciplinary Approach to Individualizing Pressure Training in Elite Sport" a "Running on Anxiety: Emotion Dysregulation Drives Exercise Dependence in Alexithymic Ultrarunners," yn y drefn honno.



Charlotte Welch, Alex McWilliam a Joe Varga

Mae'r gwobrau pwysig hyn yn dilyn llwyddiannau eraill i'r grŵp yn ddiweddar. Yn y gynhadledd ECSS yn Glasgow, enwebwyd **Marley Willegers** a **Michael Ewalts** am yr ECSS Young Investigator Award. Cyflwynwyd 278 o gynnodebau i'w hystyried, a dewiswyd 66 o gyflwyniadau llafar a 21 o gyflwyniadau poster i'w hasesu yn y gynhadledd. Ar ôl hyn, dewiswyd 10 yn y rownd derfynol a gwahoddwyd y pedwar gorau i gyflwyno i'r gyngres gyfan ar y prynhawn olaf, ac enillodd **Marley Willegers** y wobwr 1af yng nghystadleuaeth "Young Investigator" 2024 Coleg Gwyddorau Chwaraeon Ewrop am ei hymchwil o'r enw "Shelter Me from the Storm: An Attachment Perspective of Individuals' Relationship with Their Sporting Activities." Ym mis Mai, enillodd **Alex McWilliam** y wobwr am y "Cyflwyniad Llafar Gorau" gan yr European Network of Young Specialists in Sport Psychology am ei ymchwil ar bryder ynglŷn â siarad yn gyhoeddus a gyflwynodd yn eu cynhadledd yn Estonia yn 2024. Yn ogystal, enillodd **George Ely** fedal efydd 2024 Cwmni'r Brethynwyr am gyfraniad eithriadol at Brifysgol Bangor. Archwiliodd ei ymchwil, mewn partneriaeth â Bwrdd Criced Cymru a Lloegr, iechyd meddwl cricedwyr proffesiynol ledled y wlad, gan arwain at newidiadau polisi ac ymarfer i gefnogi iechyd meddwl chwaraewyr yn well. Cyflwynwyd gwobrau hefyd i'r aelodau staff **Dr Sophie Harrison** (Best Menstrual Cycle Work) a **Dr Melissa Jones** (Best Applied Work) o Sefydliad Ffisioleg Ddynol Gymhwysol Bangor, yng nghynhadledd y Women in Sport and Exercise Academic Network yn Portsmouth yn ddiweddar.




Marley Willegers gyda'r wobwr

Mae'r llwyddiannau hyn yn adeiladu ar gyflwyniad uned asesu 24 (gwyddorau chwaraeon ac ymarfer) hynod llwyddiannus y brifysgol i REF2021, lle gosodwyd Bangor yn y 5 uchaf yn y Deyrnas Unedig gyda 100% o'r ymchwil gyda'r gorau yn y byd neu'n rhagorol yn rhyngwladol.

Mae cyngres FEPSAC yn nodi penllanw blwyddyn hynod llwyddiannus o waith ymchwil ac effaith. Llongyfarchiadau i holl aelodau'r grŵp am eu gwaith caled, a diolch i'r Adran Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer ehangach a'r Ysgol Seicoleg a Gwyddorau Chwaraeon am eu cefnogaeth.

Mae'r gwaith a'r llwyddiannau hyn yn cadarnhau statws Bangor fel canolfan sydd gyda'r gorau yn y byd ar gyfer seicoleg chwaraeon ac ymarfer ac ymchwil gwyddor chwaraeon.



George Lowe yn Cyflwyno Poster



Sophie Harrison yn rhoi sgwrs

NEWYDDION CYN-FYFYRWYR



Llythyr gan gyn-fyfyriwr

Gan Dr Ashleigh Johnstone, Darlithydd Seicoleg ym Mhrifysgol Arden

Rwy'n un o'r bobl hynny a ddaeth i Fangor i wneud BSc Seicoleg (gyda Niwroseicoleg) ac yna wedi anghofio gadael. Yn 2012, cyrhaeddais Fangor i wneud fy ngradd gyntaf, yna penderfynais aros i wneud gradd Meistr a doethuriaeth, gan gwblhau fy noethuriaeth yn 2021.

Yn dilyn fy noethuriaeth, es i weithio i ddiwydiant, gan weithio fel arbenigwr cynnyrch yn Gorilla, yr adeiladwr arbrofion ar-lein. Rwyf bellach yn ôl yn y byd academaidd ac yn ddarlithydd seicoleg dysgu o bell ym Mhrifysgol Arden ac yn mwynhau gyrfa sy'n canolbwyntio ar addysgu a gweithio'n uniongyrchol gyda myfyrwyr.

Pan ofynnodd Dr Paloma Mari-Beffa i mi ysgrifennu'r golofn hon, dechreuais feddwl yn ôl ar fy amser fel myfyriwr ym Mhrifysgol Bangor - ac nid yn unig oherwydd mai Paloma oedd goruchwyliwr fy MSc a PhD! Mae cymaint o bwy ydw i fel academydd wedi deillio o fy mhrofiadau fel myfyriwr ym Mangor, ac felly roeddwn yn meddwl i byddai'n hwyli rhannu gyda chi dri pheth allweddol wnes i eu dysgu ym Mangor.

Dr. Ashleigh Johnstone



1. Effeithiolrwydd dysgu gyda hwyl

Wrth edrych yn ôl ar fy amser ym Mangor, un o'r pethau cyntaf rwy'n meddwl amdano yw'r hwyl ges i yno. Y dosbarthiadau rwy'n eu cofio orau yw'r rhai lle cawsom hwyl ac oedd â dos go lew o hiwmor yn y cynnwys. Rwy'n cofio'r adegau pan oedd y cyrsiau'n teimlo'n heriol a doeddwn i ddim yn siŵr a fyddwn i'n cyrraedd y diwedd, a sut gwnaeth y staff roi hwb i fi a'm ysgogi drwy fy atgoffa bod seicoleg yn gallu bod yn hwyl. Fel darlithydd fy hun erbyn hyn, rwy'n defnyddio fy mhrofiadau fel myfyriwr ym Mangor i'm hatgoffa am bwysigrwydd cael hwyl wrth ddysgu er mwyn cadw myfyrwyr i fynd.

2. Sut i fod digon hyderus i roi cynnig ar bethau newydd


Rwy'n cofio bod yn fyfyriwr israddedig yn y flwyddyn gyntaf a oedd yn llawn brwdfrydedd ond yn amlwg ddim yn hyderus iawn. Yn wir, yn fy semester cyntaf wnes i anfon neges destun at fy nhad a dweud wrtho fy mod eisiau gadael a dod adref oherwydd fy mod wedi clywed bod rhaid i ni wneud dosbarthiadau cyflwyno! Yn ffodus, roedd fy nhad yn gwybod yn well a gwnaeth fy annog i ddal ati am ychydig yn hirach. Gyda chefnogaeth fy ffrindiau newydd a staff Bangor, gwnes fwynhau'r dosbarthiadau cyflwyno yn y diwedd a mentora myfyrwyr eraill oedd hefyd yn teimlo pryder am siarad yn gyhoeddus. Dysgodd hyn i mi fod modd cyflawni llawer iawn os ydym yn fodlon rhoi tro ar bethau (hyd yn oed os yw'r pethau hynny'n ein dychryn).

3. Dilyn eich diddordebau

Yn ystod yr haf eleni, roeddwn yn un o lawer o bobl a oedd yn edrych ymlaen yn ofnadwy at daith Eras Taylor Swift yn y Deyrnas Unedig a dechreuais feddwl am y seicoleg y tu ôl i boblogrwydd Taylor a'r daith. Yn y pen draw, rhoddais sylwebaeth i'r cyfryngau am seicoleg Taylor Swift ac roedd yn gymaint o hwyli! Mae hyn yn rhywbeth fyddwn i byth wedi ei ystyried pe na bawn i wedi gweld cymaint o staff ym Mangor yn cymryd y pethau maen nhw'n ymddiddori ynddynt ac yn edrych arnynt o safbwynt seicolegol. Gwnaeth fy ysbrydoli i ddilyn fy niddordebau a mwynhau fy hun yn fy ngwaith!

Aduniad Alumni Dathlu 140 Mlynedd

Llun cynnar o Brif Adeilad y Celfyddydau



Ar 13 a 14 Medi 2024, dychwelodd dros 140 o gyn-fyfyrwyr i Fangor i ymuno â dathliadau 140 y brifysgol. Dechreuodd raglen yr aduniad arbennig hwn gyda chwis tafarn ym Mar Uno, y bar myfyrwyr ar safle Ffriddoedd, gyda thimau o gyn-fyfyrwyr yn brwydro trwy bedair rownd o gwestiynau gwybodaeth gyffredinol, hanes y brifysgol, enwi'r cyn-fyfyrwr / cymrawd er anrhydedd, a lleoedd ym Mangor. Llongyfarchiadau i 'SABE all your kisses for me' ar eu buddugoliaeth!

Dechreuodd dydd Sadwrn gyda'r Is-ganghellor, yr Athro Edmund Burke, yn croesawu'r cyn-fyfyrwyr. Ar ôl hynny, bu'r Athro Mike Larvin yn trafod newyddion cyffrous am Ysgol Feddygol Gogledd Cymru, a rhannodd Lywydd Undeb y Myfyrwyr, Nida Ambreen, wybodaeth am weithgareddau diweddaraf yr undeb.

Yna gwahoddwyd y cyn-fyfyrwyr i Siambr y Cyngor yn y brifysgol i seremoni ddadorchuddio'r portread dwbl o'r Athro David Thoday a Gladys Thoday, botanegwyr a gafodd effaith fawr ar Brifysgol Bangor, ac a baentiwyd gan yr artist Meinir Mathias.

Yna cafodd y cyn-fyfyrwyr gyfle i gwrdd â staff a myfyrwyr yr ysgol a chael eu tywys o amgylch y cyfleusterau a chlywed am yr ymchwil sy'n cael ei wneud gan staff a myfyrwyr.

Ymweliad Alumni â'r Uned Niwroddelweddu



Dyma broffiliau rhai o'n gwesteion:



Dr Peter Woods (Seicoleg 1970, MSc, 1973 a PhD, 1976)

Mae Peter yn seicolegydd clinigol ymgynghorol wedi ymddeol.

Bu'n rheolwr cyffredinol cynorthwyol (datblygu gwasanaeth anabledd dysgu) yn Uned Iechyd Cymunedol Gwynedd a daeth yn gyfarwyddwr clinigol gwasanaethau seicoleg ac anabledd dysgu. Ef oedd pennaeth gwasanaethau seicoleg a chyfarwyddwr clinigol cynorthwyol (AD a seicoleg) Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru ac ymddeolodd yn 2016 o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fel Cyfarwyddwr Seicoleg Glinigol a Therapiau Seicolegol.

Mae Peter yn gadeirydd etholedig grŵp arbennig seicoleg, iechyd a gofal cymdeithasol Cymdeithas Seicoleg Prydain ac mae'n aelod o senedd y gymdeithas honno.

Yn 2000, prynodd Peter a'i ddiweddar wraig Susannah hen reithordy Fictoraidd, Neuadd Lwyd, ym Mhenmynydd, Ynys Môn, a'i ddatblygu'n westy pum seren, a enillodd nifer o wobrau. Mae'r busnes wedi ei werthu bellach.

Aeth Peter i dderbyniad cyn cyngerdd RLPO 2023, derbyniad cyn-fyfyrwyr yn Nhŷ'r Arglwyddi a chyngerdd corawl Prifysgol Bangor ym mis Ebrill.



Yr Athro Chris Cullen (Seicoleg, 1971)

Athro Emeritws Seicoleg Glinigol, Prifysgol Keele.

Mae Christopher Noel Cullen yn seicolegydd sy'n arbenigo ym maes anabledd dysgu.

Cwblhaodd Cullen ei doethuriaeth ym Mhrifysgol Bangor a oedd bryd hynny yn ganolbwynt i ymddygiad radical a'i gymhwysiad i faterion clinigol. Ar ôl gweithio am gyfnod byr fel cynorthwydd ymchwil, hyfforddodd fel seicolegydd clinigol a datblygodd arbenigedd mewn gweithio gyda phobl ag anableddau dysgu. Fe'i penodwyd yn Athro Anableddau Dysgu ym Mhrifysgol St. Andrews ac yna, ym 1995, symudodd i Brifysgol Keele fel Athro Seicoleg Glinigol a Chyfarwyddwr Clinigol Therapiau Seicolegol Gogledd Swydd Stafford. Ymddeolodd fel Athro Emeritws Seicoleg Glinigol.

Bu'n weithgar yng Nghymdeithas Seicoleg Prydain, a bu'n brif asesydd cenedlaethol iddi. Etholwyd ef yn llywydd y gymdeithas ym 1997. Rhoddodd ei anerchiad cyntaf fel llywydd ar y testun dadansoddi ymddygiad mewn gwaith a therapi. Fe'i hetholwyd hefyd yn llywydd Cymdeithas Brydeinig Seicotherapiau Ymddygiadol a Gwybyddol.

Mae wedi cael gwobr cyflawniad oes gan Gymdeithas Seicoleg Prydain ac mae'n gymrawd anrhydeddus, Cymdeithas Seicotherapiau Ymddygiadol a Gwybyddol Prydain.



Marie-Pascale Onyeagoro-Okonkwo (MSc Seicoleg Glinigol ac Iechyd, 2022)

Mae Marie-Pascale yn dod o Nigeria'n wreiddiol ac mae'n gynorthwydd gofal iechyd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, yn cefnogi cleifion iechyd meddwl ac anabledd dysgu. Hi hefyd yw perchennog cegin dros dro Baram Afro ym Mangor.

Ym mis Hydref 2023, cymerodd Marie-Pascale ran yn natliad mis hanes pobl dduon y brifysgol, gan berfformio monolog 'I am African Everywhere'.

Ymweliad Alumni i'r Ystafell Les



NEWYDDION MYFYRWYR

Llongyfarchiadau

I'n holl fyfyrwyr sy'n graddio yn **Haf 2023-24**



Gwobrau Myfyrwyr

Adran Gwyddorau Chwaraeon ac Ymarfer Corff

- Gwobr Sarah Smythe am y Radd Gyffredinol Uchaf ar draws holl fyfyrwyr Israddedig SES:
Holly Aitchison
- Gwobr Prosiect Israddedig am y Prosiect Ymchwil â'r sgôr uchaf:
Marit Dekker
- Gwobr Traethawd Hir Israddedig am y Traethawd Hir a gafodd y sgôr uchaf:
Holly Skelton
- Gwobr Dinasyddiaeth Ysgol am gyfraniad eithriadol i'r Adran, Dosbarth 2024:
Andrew Ayshford
- Myfyriwr graddedig gorau sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg:
Tash Matthews
- Myfyriwr gorau sy'n graddio mewn rhaglenni MSci, Dosbarth 2024:
Andrew Ayshford

Adran Seicoleg

- Gwobr Myfyriwr Prosiect Gorau, Dosbarth 2024:
Wyn Yan Loh
- Gwobr Myfyriwr Prosiect Gorau BPS, Dosbarth 2024:
Wyn Yan Loh
- Gwobr Fergus Lowe i'r Myfyriwr Graddedig Gorau, Dosbarth 2024:
Gerda Kabailaite
- Gwobr Dinasyddiaeth Ysgol Kevin Larkin am gyfraniad eithriadol i Ddosbarth Adran 2024:
Victor Tindle
- Myfyriwr Graddedig gorau sy'n astudio trwy'r Gymraeg:
Sion Elfyn
- Myfyriwr Graddedig Gorau mewn MSc mewn Cwnsela, Dosbarth 2024:
Jack Cunliffe

Prifysgol Bangor yn dyfarnu Doethuriaeth er Anrhydedd yn y Gyfraith (Hon LLD) i Syr Alan Bates cyn is-bostfeistr - am wasanaeth cyhoeddus yn ystod seremonïau graddio'r haf

Syr Alan Bates gyda Dr. Tracey Lloyd



Er ei fod yn arwr annhebygol, mae Syr Alan Bates, cyn is-bostfeistr o Landudno, wedi ymroi dau ddegawd i eiriol dros gyfiawnder a chlirio enwau rheolwyr Swyddfa'r Post a ddiodeffodd yn sgil yr hyn a ystyrir yr achos mwyaf o gamweinyddu cyfiawnder yn hanes y Deyrnas Unedig.

Sefydlodd Syr Alan y Gynghrair Gyfiawnder i Is-bostfeistri yn 2009, gan chwarae rhan flaenllaw yn y frwydr gyfreithiol i geisio cyfiawnder i'r rhai a gyhuddwyd ar gam a sicrhau iawndal iddynt.

Gyda phump arall o'r Gynghrair Gyfiawnder, aeth â Swyddfa'r Post i'r llys ar ran 555 o hawlwyd.

Dr. Paloma Mari-Beffa, Syr Alan Bates, a'r Athro Tim Woodman



Astudiaethau achos a gyhoeddwyd o broject antf

Bu Luke Sanders, myfyriwr MSc Cwnsela, yn cydweithio'n ddiweddar â Dr Beverley Pickard-Jones a'r Athro Fay Short i gyhoeddi astudiaeth achos fel rhan o broject arloesi deallusrwydd artifisial cynhyrchiol Cymdeithas Cymrodyr Addysgu Cenedlaethol (ANTF). Nod y project hwn oedd datblygu technegau hyfforddi i gwrselwyr y dyfodol, a chwaraeodd Luke ran allweddol yn ei lwyddiant.

Mae'r cydweithrediad hwn rhwng staff a myfyrrwyr yn dangos y potensial o weithio gyda myfyrrwyr fel partneriaid. Mae'n rhoi boddhad arbennig iddo fod y gwaith wedi arwain at adnodd addysgol agored cyhoeddus, sydd bellach ar gael i ysbrydoli addysgwyr ledled y byd.



sites.google.com/brookes.ac.uk/genaiheteaching/case-studies/6-developing-counselling-skills-through-ai-client-simulation?authuser=0

Yn ddiweddar, bu Mike Morris, myfyriwr BSc Gwyddor Chwaraeon, yn cydweithio â ni ar broject arloesi deallusrwydd artifisial cynhyrchiol Cymdeithas Cymrodyr Addysgu Cenedlaethol (ANTF), gan gyfrannu "pearl of wisdom"—dam cryno o gyngor ar ddefnyddio offer deallusrwydd artifisial i fireinio sgiliau ysgrifennu myfyrrwyr.

Mae ei gyfraniad yn dangos gwerth cynnwys myfyrrwyr mewn datblygiad addysgol, gan ddangos ffyrdd ymarferol y gall technoleg gyfoethogi'r profiad dysgu. Mae'r cyfraniad hwn yn cyd-fynd ag ymrwymiad Prifysgol Bangor i ddefnyddio technoleg i gyfoethogi a chefnogi dysgu myfyrrwyr.



sites.google.com/brookes.ac.uk/genaiheteaching/pearls?authuser=0



Dr Beverley Pickard-Jones



Luke Sanders



Mike Morris

Myfyrrwyr seicoleg yn cael eu dewis i gyd-greu ap iechyd meddwl

Mae grŵp o chwe myfyriwr o'r Ysgol Seicoleg: Nathaniel Hesketh, Amina Mohammad, Aya Machmachi, Pinja Marcos Erikivi, Ryan Welham a Katie Ratcliffe wedi eu dewis i gymryd rhan mewn cystadleuaeth gyffrous i gyd-ddylunio ap iechyd meddwl, mewn cydweithrediad â BfB Labs. Bydd y gweithdy hefyd yn cynnwys myfyrrwyr o'r Adran Gyfrifiadureg a Dylunio Cynnyrch, ac yn dod â gwahanol ddisgyblaethau ynghyd i annog arloesi a chydweithio ymarferol.

Wedi ei hwyluso gan BfB Labs, bydd y gystadleuaeth hon yn rhoi dealltwriaeth amhrisiadwy i fyfyrwyr seicoleg ar sut y gellir cymhwyso eu sgiliau yn ymarferol yn y sector digidol a'r sector iechyd meddwl. Trwy gydweithio ar draws disgyblaethau, bydd myfyrrwyr yn cael profiad uniongyrchol o'r broses gyd-ddylunio, gan gyfrannu at broiect ystyrlon sy'n anelu at wella cefnogaeth iechyd meddwl trwy dechnoleg. Mae'r cyfle hwn yn adlewyrchu ymrwymiad Prifysgol Bangor i brofiadau dysgu ymarferol sy'n pontio'r bwlch rhwng astudiaethau academiaidd a chymwysiadau yn y byd go iawn.



Myfyrrwyr yn cyd-ddylunio Ap Iechyd Meddwl

Fy Wythnos Gyrfa Graddedig 21^{ain}-25^{ain} Hydref 2024

Mae Wythnos Gyrfa i Raddedigion yn rhoi cyfle i fyfyrwyr ganolbwyntio ar eu sgiliau, eu profiadau, a'u dyfodol. Roedd digwyddiadau yn ystod yr wythnos yn galluogi myfyrrwyr i gwrdd â chyflogwyr o ystod o sectorau gwaith, gwrandao ar arbenigwyr yn y diwydiant a bu cyn-fyfyrwyr Prifysgol Bangor yn rhannu eu profiadau o ddatblygu eu gyrfa. Roedd myfyrrwyr hefyd yn gallu cael cyngor arbenigol ar gynllunio gyrfa, rhwydweithio ac arferion recriwtio.

Diolch i bawb a ymunodd â ni yn y Ffair Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd. Roedd yn wych gweld cymaint ohonoch yn cysylltu â chyflogwyr ac yn archwilio cyfleoedd newydd. Gobeithiwn ei fod wedi eich helpu i gymryd y cam nesaf yn eich gyrfa.

Dr. Rudi Coetzer, Dr Carolien Lamers a'r Athro Fay Short



NEWYDDION AM LEOLIADAU A CHYFLOGADWYEDD

A oeddech yn gwybod bod myfyrwyr israddedig yn gallu cofrestru ar fodiwlau lleoliad gwaith dewisol?

Gall myfyrwyr gofrestru ar radd sy'n cynnwys blwyddyn i ffwrdd a mynd ar leoliad am flwyddyn gyfan rhwng yr ail a'r drydedd flwyddyn. Fel arall, gall myfyrwyr gofrestru ar y modiwl lleoliad gwaith tymor byr am ddim ar unrhyw adeg yn ystod gradd israddedig. Gallent weithio ar unrhyw adeg o'r flwyddyn yn eu hamser eu hun, a chael ei gydnabod fel rhan o'u gradd! Mae modiwlau lleoliad yn cyfrif fel hunan-astudio a gall myfyrwyr eu gwneud ar eu cyflymder eu hunain gyda chefnogaeth arweinydd modiwl pwrpasol.

Dr Alex Baxendale (Seicoleg) A.Baxendale@bangor.ac.uk

Dr Gavin Lawrence (Gwyddor Chwaraeon) G.P.Lawrence@bangor.ac.uk

Dyma rai o'n myfyrwyr sydd ar leoliad ar hyn o bryd:


Hasib Sarker

"Rwyf ar hyn o bryd yn gweithio gyda'r Uned Diogelwch Cam-drin Domestig yng ngogledd Cymru, lle rwyf wedi bod yn ymwneud ag amrywiol agweddau ar gefnogi pobl sydd wedi dioddef cam-drin domestig. O gynorthwyo gyda chynllunio diogelwch i gydlynu mentrau allgymorth cymunedol, mae pob dydd yn cynnwys cyfleoedd newydd i wneud gwahaniaeth ym mywydau'r rhai y mae trais domestig yn effeithio arnynt. Mae rhai o'm hoff brofiadau yn ystod y lleoliad hwn yn cynnwys cymryd rhan mewn ymgyrchoedd ymwybyddiaeth mewn cymunedau lleol a gweld yn uniongyrchol effaith ein hymdrechion ar wella diogelwch a llesiant."



Shannon Wain

"Cefais y fraint o dreulio fy mlwyddyn ar leoliad yn gweithio fel seicolegydd cynorthwyol mewn tîm iechyd meddwl cymunedol yng ngorllewin Wiltshire. Roedd fy swydd yn hynod amrywiol, ac yn caniatáu i mi gysgodi amrywiaeth o weithwyr proffesiynol, gan gynnwys seicolegwyr clinigol a niwroseicolegwyr, lle gwelais asesiadau gwybyddol ac amryw o ddulliau therapiwtig wedi eu teilwra i wahanol gyflyrau clinigol. Treuliais beth amser hefyd ar un o'r wardiau cleifion mewnol, a rhoddodd hyn cipolwg gwerthfawr i mi ar gymhlethdodau gofal iechyd meddwl ac iwt a sut mae seicoleg yn gweithio yn y GIG."



Molly Johnson

"Rwyf ar hyn o bryd yn gweithio mewn ysgol uwchradd yn Swydd Gaer fel cymhorthydd dysgu. Rwy'n cefnogi myfyrwyr a all fod yn dioddef o amrywiol broblemau cymdeithasol, emosiynol a meddyliol. Mae creu perthynas â'r myfyrwyr a gweld cynnydd y gwahanol fyfyrwyr yr wyf yn eu cefnogi o ddydd i ddydd yn un o fy hoff agweddau ar y lleoliad. Mae gwybod y gallaf helpu i wneud gwahaniaeth a dysgu gan eraill o'm cwmpas a chymhwyso'r wybodaeth honno yn ystod y flwyddyn hon ac yn ystod gweddill fy ngradd ac yn y dyfodol yn werth chweil. Mae'r tîm rwy'n gweithio gyda nhw yn hynod gefnogol a byddaf yn drist i adael ar ddiwedd y flwyddyn. Rwy'n gwybod fy mod wedi cael cymaint o brofiad ac wedi dysgu cymaint o sgiliau newydd o weithio gyda nhw. Rwyf wrth fy modd bod bwrlwm yr ysgol yn gwneud pob diwrnod yn wahanol ac yn ddiddorol, ac yn sicrhau fy mod yn aros ar flaenau fy nhraed ac yn addasu mewn amgylchedd sy'n newid yn gyson."



Cronfa gymunedol Bangor yn cefnogi uwchgynhadledd cynaliadwyedd ar Yr Wyddfa

Yr Wyddfa yw copa prysuraf Cymru. Mae cannoedd o filoedd yn cyrraedd y copa bob blwyddyn. Yn anffodus, fel llawer o gyrchfannau poblogaidd ym Mharc Cenedlaethol Eryri, mae'r mynydd wedi dioddef llygredd plastig. Er enghraifft, amcangyfrifodd astudiaeth wyddonol gan CGG o samplau pridd fod hyd at 5% o gopa'r Wyddfa wedi'i lygru gan ficro-blastigau. Yn yr un modd, eleni yn unig, mae gwirfoddolwyr wedi symud tua 1.3 tunnell o sbwriel o'r mynydd - sy'n cyfateb i 700 o sachau sbwriel.

Mewn ymateb i hyn, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (ENPA) wedi bod yn gweithio gyda academyddion o Brifysgol Bangor i ddog o hyd i atebion i'r heriau hyn, ochr yn ochr â phenodi swyddog 'di-blastig' a gafodd y dasg o weithio gyda chlymblaid o'r rhai sy'n barod i gael gwared â phlastig na ellir eu hailddefnyddio o'r mynydd.

Roedd un o'r mentrau allweddol yn ymwneud â chydweithio â'r Athro John Parkinson, arbenigwr blaenllaw mewn seicoleg ymddygiad, a'i fyfyrwyr MSc Seicoleg, Harry Loraine a Conor Fitzpatrick. Gyda'i gilydd, maent wedi ymgymryd â chyfres o brosiectau gyda'r nod o ddeall a newid ymddygiad tuag at daflu sbwriel gan ymwelwyr â'r parc cenedlaethol.

Mewn prosiect cychwynnol a gafodd sylw ar Coast and Country ar ITV, datgelodd yr Athro Parkinson nad mater o bobl ddim yn gofalu yn unig oedd taflu sbwriel.

NEWYDDION YMCHWIL ÔL-RADD

Llwyddiant mawr ein cynhadledd ymchwil

Roedd Cynhadledd Ymchwil Flynyddol yr Ysgol Seicoleg a Gwyddor Chwaraeon 2024 yn llwyddiant mawr. Roedd yn cynnwys 15 o gyflwyniadau llafar, 9 poster a sesiwn gyflwyniadau ymchwil byr hynod ddifyr yn cynnwys sgysiaid gan Tim Woodman, Guillaume Thierry ac aelodau staff newydd, sef Melissa Jones a Tirso Alam Gonzalez. Roedd llawer iawn o bobl yn bresennol, gan gynnwys staff, myfyrwyr ôl-radd ymchwil, myfyrwyr meistr ac interniaid israddedig. Ac roedd y cinio yn flasus iawn!

Diolch i Liam Hardman, Irina Giurgea a'r cynrychiolwyr ôl-radd ymchwil eraill am yr holl waith trefnu. Ac i Vicky Gottwald ac Ayelet hefyd. Diolch i'r cadeiryddion i gyd ac i baw a ofynnodd gwestiynau craff ac adeiladol. A diolch i Yufen Wei am dynnu lluniau gwych!

I gloi, llongyfarchiadau i enillwyr gwbl haeddiannol y gwobrau, a roddodd gyflwyniadau o ansawdd eithriadol o uchel:

Poster Gorau: **Steffi Studt**

Cyflwyniad 5 munud gorau: **Kanza Jamil**

Cyflwyniad 10 munud gorau: **Charlotte Clare**



Academeiddion Bangor a myor yn hysbysu protocolau dethol yng nghylch prawf gb beach sprint rowing a digwyddiadau dethol tîm cenedlaethol



Mae rhwyfo wedi creu hanes Olympaidd yn ddiweddar gyda chynnwys Beach Sprints yng Ngemau Olympaidd a Pharalympaidd Los Angeles 2028. Mae sbrintiau traeth yn cael ei gweld fel y BMX o rwyfo: camp cyflym, llawn cyffro a pherygl. Fel camp Olympaidd yn ei fabandod, cymharol ychydig a wyddom am y protocolau dewis a datblygu talent gorau posib.

Fel rhan o brosiect cydweithredol parhaus yn cynnwys staff IPEP (Dr Vicky Gottwald, yr Athro James Hardy) a IAHP (Dr Julian Owen), ynghyd â dau fyfyrwr PhD (Jack Bickley a Ben Owen), rydym wedi bod yn ymwneud â llywio protocolau dethol ym Mhrydain Fawr ar gyfer digwyddiadau profi a dewis Tîm Cenedlaethol Rhwyfo Sbrint Traeth. Mae hyn wedi cyfrannu at rwyfwyr Tîm Prydain Fawr yn sicrhau dwy fedal Aur ym Mhencampwriaethau'r Byd eleni (Genoa ac yr Eidal) – un yn nigwyddiad y Quads ac un arall yn nigwyddiad Para PR3.



Myfyriwr yor yn cael ei ddyfarnu cronfa Partneriaethau Gwyddoniaeth Ryngwladol (ISPF) i werthuso ymchwil ar welliant presysol yn Kenya wledig

Mae Brian Murithi Humphrey, myfyriwr Ymchwil Ôl-Raddedig a oruchwyliwyd gan yr Athro Helen Henningham, yn gweithio ar hap-dreial clwstwr o raglen gwella cyn-ysgol yn Tharaka Nithi (Kenya wledig) fel goruchwyliwr ymyrraeth. Mae'r treial yn cynnwys 119 o ysgolion (60 ymyrraeth, 59 rheolaeth) a nod yr ymchwil yw cynyddu ansawdd yr amgylchedd addysgol cyn-ysgol trwy fenter hyfforddi athrawon a darparu pecyn dosbarth cost isel o ddeunyddiau addysgu a dysgu lleol.

Mae Brian wedi derbyn cyllid drwy'r ISPF i gynnal gwerthusiad ansoddol o'r rhaglen. Mae hyn yn cynnwys archwilio safbwyntiau penaethiaid, athrawon cyn-ysgol, goruchwyliwyr a swyddogion y Sir i nodi pa mor dderbyniol, dichonol ac effeithiolrwydd canfyddedig yr ymyriad, y galluogwyr a'r rhwystrau i weithredu ac awgrymiadau ar gyfer gwella.



Llongyfarchiadau i'n meddygon newydd

Addasu e-iechyd ymyrraeth "isupport" i ofalwyr o bobl â dementia prin

Bethan Naunton Morgan PhD Psych

Goruchwyliar gan yr Athro Gill Windle a Dr Carolien Lamers.



Mae iSupport yn ymyriad ar-lein a ddatblygwyd gan Sefydliad Iechyd y Byd i gefnogi gofalwyr dementia. Mae'n cynnwys adnoddau addysgol ar ddementia yn ogystal â chynngor ymarferol ar ofalu a phwysigrwydd hunanofal. Bydd fy ymchwil yn addasu rhaglen iSupport ar gyfer gofalwyr pobl â dementia math prin, a byddaf yn gweithio gyda'r elusen Cymorth Dementia Prin (RDS) fel rhan o'u Astudiaeth Effaith RDS.

Cyfieithu canfyddiadau emprigol o amseriad cymdeithasol rhyngweithiadau, er mwyn asesu a mynd i'r afael â anawsterau cydraddoldeb cymdeithasol mewn anhrefn sbectrwm awtistig (asd) a mynd i'r afael â'r anawsterau diagnostig

Awdur: Dr Judit Elias Masiques - PhD Psych

Dan oruchwyliaeth Dr Dawn Wimpory a'r Athro Kami Koldewyn.



Mae Amseru Cymdeithasol, sef cydamseru rhyngweithiadau dros dro, yn holl bwysig mewn dynameg rhiant-baban ac mae amhariad amlwg arno yn anhwylder sbectrwm awtistiaeth (ASD). Mae ASD, cyflwr niwroddatblygiadol, yn cael ei nodweddu gan anawsterau mewn cydamseriad amser, llai o sylw a rennir, a heriau mewn ymgysylltiad cymdeithasol. Mae'r traethawd ymchwil hwn yn archwilio sylw a rennir a chydamseru amserol mewn rhyngweithiadau naturiolaid gan ddefnyddio offeryn micro-codid newydd: Synchrony of Communication in Autism: Evaluation by Micro-Analysis (SCAEMA). Mae SCAEMA yn asesu Cydamseru Cyfatebol (synchroni sylw), Synchrony Dilyniannol (cwyrn ymateb lleisiol), a Deugyfeiriadol Synchrony (dadansoddiad traws-gydberthynas cyfres amser). Mae'r ymchwil hwn yn rhoi mewnwelediadau allweddol i gydamseru amser mewn TD ac ASD, gan amlgyu llwybrau datblygiadol unigryw ar potensial ar gyfer ymyriadau fel MIT.

Rhannu llyfrau dialogig a'i effaith ar iaith ac ymddygiad rhiant

Awdur: Dr Lauren King - PhD Psych

Goruchwyliaeth gan yr Athro Judy Hutchings a Dr Margiad Williams.

Archwiliad o iechyd meddwl mewn chwaraeon elite: astudiaeth achos o griced

Awdur: Dr George Ely - PhD Gwyddor Chwaraeon

Goruchwyliaeth gan yr Athro Tim Woodman, yr Athro Ross Roberts a Dr Eleri Jones.



Mae iechyd meddwl athletwyr yn cael ei gydnabod fwyfwy fel rhywbeth hanfodol mewn chwaraeon proffesiynol. Er gwaethaf ei bwysigrwydd, mae ymchwil yn parhau i fod yn gyfyngedig, yn enwedig mewn criced, lle mae adroddiadau anecdotaidd o frwydrau iechyd meddwl ymhlith chwaraewyr proffil uchel yn awgrymu bod argyfwng yn bosibl. Mae'r traethawd ymchwil hwn yn mynd i'r afael â'r angen am ymchwil sylfaenol i iechyd meddwl cricedwyr.

Mae Pennod 1 yn adolygu iechyd meddwl mewn chwaraeon, yn enwedig criced, gan bwysleisio cyfyngiadau ymchwil blaenorol ac effeithiau'r pandemig, a gynyddodd gorbryder ac iselder, a lleihau lles yn fyd-eang. Mae Pennod 2 yn archwilio swigod bioddogel a ddefnyddiwyd yn ystod y pandemig, gan ganfod eu bod wedi cynyddu pryder ac iselder tra'n lleihau lles, gyda menywod yn adrodd am fwy o effeithiau negyddol. Roedd anghenion seicolegol sylfaenol yn cyfyngu'r effeithiau hyn.

Mae Pennod 3 yn archwilio lles cricedwyr gan ddefnyddio grwpiau ffocws. Canfuwyd bod egni a chydbwysedd yn elfennau craidd o les chwaraewyr a chanfuwyd bod perthnasoedd yn effeithio'n sylweddol ar les cricedwyr. Mae Pennod 4 yn archwilio iechyd meddwl cricedwyr yn hydredol, gan wffio'r syniad bod iechyd meddwl cricedwyr mewn argyfwng, nodi cydran amserol o iechyd meddwl athletwyr a chynnig perthynas gymhleth rhwng alcohol a arwyddion iechyd meddwl eraill.

Mae'r traethawd ymchwil yn integreiddio'r canfyddiadau hyn i amlgyu goblygiadau damcaniaethol, methodolegol a chymhwysol, gan gloi gyda argymhellion ar gyfer ymchwil yn y dyfodol i iechyd meddwl a lles cricedwyr.

Cydberthnasau gweithgaredd corfforol, iechyd fasnolaidd a swyddogaeth yr arenau mewn cleifion sy'n byw â chlefydau ar yr arenau cronig

Awdur: Dr Mark Davies - PhD Gwyddor Chwaraeon

Dan oruchwyliaeth yr Athro Jamie Macdonald, a Dr Aamer Sandoo.

Mae Clefyd Cronig yr Arennau (CKD) yn gyflwr cynyddol sy'n gysylltiedig ag afiachusrwydd sylweddol, marwolaethau, a risg cardiofasgwlaidd uwch. Gall camweithrediad fasgwlaidd chwarae rhan hanfodol yn y cysylltiad hwn. Er bod opsiynau ffarmacolegol yn gyfyngedig, mae ymarfer corff wedi dod i'r amlwg fel ymyriad posibl i wella iechyd fasgwlaidd ac arafu dirywiad gweithrediad yr arenau. Mae'r traethawd ymchwil hwn yn archwilio'r berthynas rhwng gweithgaredd corfforol, iechyd fasgwlaidd, a gweithrediad yr arenau mewn clefyd cronig yn yr arenau, gan nodi targedau posibl ar gyfer ymyrraeth.

Mae Pennod 2 yn cyflwyno adolygiad systematig a meta-ddadansoddiad sy'n archwilio effaith ymarfer corff ar iechyd fasgwlaidd mewn cleifion CKD. Datgelodd meta-ddadansoddiad o hap-dreialon rheoledig welliannau mewn anystwythder rhydweliol, a amlygwyd gan gyflymder tonnau pwls is a mynegai cynyddu. Fodd bynnag, ni welwyd unrhyw welliannau cyson mewn ymlediad endothelaidd-ddibynnol, gyda heterogenedd yn cael ei briodoli i wahaniaethau yn y boblogaeth a rhaglenni ymarfer corff.


Mae Pennod 3 yn cynnwys astudiaeth arsylwadol sy'n dadansoddi effeithiau llai o weithrediad yr arenau a gweithgarwch corfforol arferol ar swyddogaeth fasgwlaidd. Dangosodd canlyniadau trawsdoriad fod gweithgaredd corfforol wedi'i wella'n annibynnol yn gysylltiedig â ymlediad endothelaidd rhydweli mawr a micro-gasgliad, a bod cydberthynas rhwng gweithgarwch corfforol a swyddogaeth yr arenau â thrwch intima-gyfringol carotid. Fodd bynnag, yn hydredol, nid oedd gweithgaredd corfforol na swyddogaeth micro-gynhwysydd yn rhagweld dirywiad yng ngweithrediad yr arenau.

Mae Pennod 4 yn manylu ar ymyriad ymarfer corff dros 12 mis. Er gwaethaf heriau dichonol anawsterau yn ymwneud â COVID-19, barnwyd bod yr astudiaeth yn ddichonadwy. Ni welwyd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol rhwng gweithrediad yr arenau na iechyd fasgwlaidd rhwng grwpiau ymarfer corff a rheoli. Mae materion cadw a chadw yn amlgyu heriau ymyriadau ymarfer corff yn y boblogaeth hon.

Yn gyffredinol, mae'r traethawd ymchwil hwn yn tanlinellu potensial ymarfer corff ar gyfer iechyd fasgwlaidd mewn clefyd cronig yn yr arenau ond mae'n pwysleisio cymhlethdodau gwella canlyniadau arenau drwy weithgarwch corfforol.

Laura Miles yn cael ei hanrhydeddu gyda Dyfarniad Effaith Partneriaeth Myfyrwyr i fentrau iechyd meddwl trawsnewidol

Mae myfyrwraig y mae ei mentrau wedi arwain at newidiadau ar draws y sefydliad wedi derbyn Gwobr Effaith Partneriaeth Myfyrwyr gan y Gymdeithas Staff a Datblygu Addysg.



Derbyniodd Laura Miles, hyfforddai DClinPsy ym Mhrifysgol Bangor, y wobwr oherwydd yr effaith sylweddol a gafodd ym Mhrifysgol Bangor. Mae Laura wedi datblygu partneriaeth myfyrwyr-staff i wella'r gefnogaeth sydd ar gael gydag anawsterau iechyd meddwl ymhlith seicolegwyr clinigol dan hyfforddiant. Mae wedi sefydlu grŵp cefnogi cymheiriaid sy'n eirioli dros fyfyrwyr, gan fynd i'r afael â'r diffyg lle i drafod problemau iechyd meddwl. Cynhaliodd y grŵp, sy'n cynnwys staff a myfyrwyr, arolwg i ddeall profiadau a rhoi nifer o fentrau ar waith, gan gynnwys newidiadau mewn arferion addysgu a phrosesau sefydliadol i leihau stigma a gwella cefnogaeth.

Roedd y wobwr i **Laura** yn nodi **"Mae ei hymdrechion wedi arwain at newidiadau sefydliadol, gan gynnwys lle cynaliadwy i gefnogi cymheiriaid a gwaith partneriaeth parhaus i gefnogi hyfforddeion clinigol gydag anawsterau iechyd meddwl."**

Yn ogystal â'r newidiadau, mae Laura hefyd wedi datblygu fframwaith i feithrin diwylliant cefnogol a gwerthfawr fel rhan o draethawd hir ei doethuriaeth seicoleg glinigol, y mae'n gobeithio ei weld yn cael ei gyhoeddi mewn cyfnodolyn a adolygir gan gymheiriaid. Mae hi hefyd yn gobeithio rhannu ei chanfyddiadau mewn cynadleddau, yn ogystal â datblygu pecyn hyfforddi ar gyfer rhaglenni seicoleg glinigol eraill i ddilyn, y mae Rhaglen Seicoleg Glinigol Gogledd Cymru wedi ei fabwysiadu ac a allai gael ei fabwysiadu gan eraill.

"Mae'n fraint ac yn bleser mawr ennill y wobwr hon, ac rwyf eisiau cydnabod rôl fy nghyd-hyfforddeion a staff y rhaglen wrth wneud y cynnydd yr ydym wedi ei wneud. Mae symud tuag at ddiwylliant lle'r ydym yn gwerthfawrogi profiad uniongyrchol o anawsterau iechyd meddwl ymhlith seicolegwyr clinigol yn newid sylweddol yn y paradeim, a fydd yn gofyn am ddewrder ac ymrwymiad parhaus gan y gymuned seicoleg gyfan. Edrychaf ymlaen at weld beth yw'r camau nesaf a sut y bydd cenedlaethau'r dyfodol o seicolegwyr dan hyfforddiant yn adeiladu ar y gwaith sydd wedi digwydd ym Mangor."

DIGWYDDIADAU

Dr. Charlie Wiltshire yn siarad yn y Senedd



Bangor yn y Senedd

Gwahoddwyd Dr Charlie Wiltshire, ar yr 17eg o Fedi, i siarad am "Greu Dull System Gyfan ar gyfer Ymchwil Lleferydd" yn y Senedd, mewn digwyddiad a gynhaliwyd gan Gymdeithas Niwrowyddoniaeth Prydain.

Cyfnewid laith ac iaith y Gogledd



Mae Cyfnewidfa Lleferydd ac Iaith Gogledd Cymru (NWSLE) yn fenter newydd a sefydlwyd gan Dr Sam Jones a Dr Charlie Wiltshire, gan weithio ar y cyd ag arweinyddwr clinigol o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC). Nod NWSLE yw meithrin ymgysylltiad rhwng clinigwyr ac ymchwilwyr sydd â diddordeb proffesiynol mewn anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, a hyrwyddo Prifysgol Bangor fel arweinydd byd yn y maes hwn.

Cynhaliwyd gynhadledd gyntaf NWSLE ym Mhrifysgol Bangor ym mis Hydref 2023 ac ym mis Hydref 2024 cynhaliwyd ail gynhadledd flynyddol ym Mhrifysgol Wrecsam; canolfan hyfforddi fawr ar gyfer therapyddion lleferydd ac iaith ar draws Gogledd Cymru.

NWSLE ym Mhrifysgol Bangor ym mis Hydref 2023



